



Dyddio blwyddgylch yng Nghymru

Tree-ring dated buildings in Wales

Techneg ar gyfer dyddio pren yn fanwl gywir drwy ddadansoddi cylchoedd tyfiant blynyddol coed yw dendrocronoleg (dyddio blwyddgylch). Os yw'r cyfan o'r gwynnin wedi goroesi, gellir dyddio coed i'r union flwyddyn (ac weithiau'r tymor) y cafodd ei dorri. Os yw rhan o'r gwynnin, neu'r ffin rhwng y rhuddin a'r gwynnin, wedi goroesi, gellir rhoi amrediad o ddyddiadau ar gyfer y torri. Mae'r Comisiwn Brenhinol wrthi'n dyddio amrywiaeth o dai ac eglwysi fel rhan o'i Raglen Dyddio Blwyddgylch Genedlaethol. Mae'r panel hwn yn rhoi sylw i rai adeiladau cynnar pwysig sydd wedi cael eu dyddio'n ddiweddar gan y Comisiwn Brenhinol a'i bartneriaid. Mae rhagor o fanylion am y safleoedd hyn i'w cael ar Coflein, cronfa ddata ar-lein y Comisiwn Brenhinol.

Dendrochronology (tree-ring dating) is a technique for precisely dating timber through analysing the annual growth rings of trees. If complete sapwood survives, timber can be dated to the exact year (and sometimes the season) of felling. If partial sapwood survives, or the heartwood/sapwood boundary, a felling date range can be given. The Royal Commission is dating a range of houses and churches as part of its National Tree-ring Dating Programme. This panel illustrates some important buildings which have been recently dated by the Royal Commission and its partners. Further details of sites dated are available on Coflein, the Royal Commission's online database.



NPRN 17603 DI2006_0608



NPRN 17603 DS2007_163_002

Uchod: Llun: Tŷ Newton: fel yr oedd pan gafodd ei adeiladu yn yr 17eg ganrif.

Above: Newton House: as originally built in the 17th century.

Uchod: Tŷ Newton, Parc Dinefwr, ar ôl cael ei newid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r dyddiad blwyddgylch ar gyfer y tŷ yn dangos iddo gael ei godi ychydig ar ôl yr Adferiad ym 1664. Dyddiwyd mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

Above: Newton House, Dinefwr Park, as altered in the nineteenth century. Tree-ring dating showed that this house was built not long after the Restoration in 1664. Dated in partnership with the National Trust Wales.

De: Cafodd drysau dellt-gleddog nodedig castell Cas-gwent eu gwneud o goed a dorwyd rhwng 1159 a 1189 a'r rhain yw'r giatiau hynaf sydd wedi goroesi yn Ewrop. Comisiynwyd y gwaith dyddio gan Cadw.


Right: The distinctive lattice-braced gates at Chepstow castle were made from timber felled between 1159-89, and are the oldest surviving gates in Europe. Dating commissioned by Cadw.



NPRN 95237 DS2005_006_004

Isod: Mae gan Eglwys Sain Niclas, Y Grysmwnt (Sir Fynwy), y to eglwys hynaf yng Nghymru. Cafodd ei wneud o goed a dorwyd i lawr rhwng 1214 a 1244, sawl degawd cyn i gestyll Edwardaidd gogledd Cymru gael eu codi. Comisiynwyd y gwaith dyddio gan y Comisiwn Brenhinol.

Below: St Nicholas's Church, Grosmont (Monmouthshire), has the earliest surviving church roof in Wales. It was built from timber felled between 1214-44, several decades before the construction of the Edwardian castles of north Wales. Dating commissioned by the Royal Commission



NPRN 301421 DI2007_0331

Hafodygarreg (Crucadarn, Sir Frycheiniog) yw'r tŷ nennffyrch cynharach i gael ei ddyddio yng Nghymru. Cafodd y nennffyrch eu torri yn yr Haf 1402 yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr. Comisiynwyd y gwaith dyddio gan y Comisiwn Brenhinol.

Hafodygarreg (Crucadarn, Breconshire) is the earliest precisely dated cruck-framed house in Wales. The cruck was felled in Summer 1402 during Owain Glyndŵr's revolt. Dating commissioned by the Royal Commission.



NPRN 221965 DS2011_339_008